**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **30 Mehefin 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **David Smith, Aelod Arweiniol dros Barth y Cynhoedd**

**Awduron yr Adroddiad:** **Lisa Jones / Emlyn Jones**

**Teitl: Dirprwyo Pwerau o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 a diwygiadau sy'n ofynnol i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion mewn perthynas â phwerau a ddirprwywyd yn flaenorol i'r Pennaeth Tai.**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau newydd ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gynhwysir o fewn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014.

Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio awdurdod i ddarparu awdurdod i'r Swyddog Monitro ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol, o ystyried cyfuniad rôl Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, gyda rhai swyddogaethau Tai, yn dilyn ailstrwythuro uwch swyddogion.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad mewn perthynas â chymeradwyaeth gan y Cabinet bod y pwerau sydd wedi'u cynnwys o dan y ddeddfwriaeth hon yn cael eu dirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol fel y nodir yn Atodiad 1, er mwyn sicrhau bod y pwerau newydd yn cael eu gweithredu'n effeithiol; hefyd, ar yr un pryd, i dacluso'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion mewn perthynas â swyddogaethau a newidiadau yn y gyfraith sy'n ymwneud â Thai/sy'n gysylltiedig â thai.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Swyddogion a restrir yn Atodiad 1 yn cael awdurdod dirprwyedig i arfer y pwerau newydd a'r swyddogaethau ychwanegol a ddygwyd o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, er mwyn galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ffordd briodol, gyson a chymesur ac o fewn cyfyngiadau adnoddau.

3.2 Bod lefel y dirwyon am Hysbysiadau Cosb Benodedig fel cosb am dorri Rybuddion Gwarchod y Gymuned a Rhybuddion Mannau Cyhoeddus yn cael eu gosod yn £100, sef yr uchafswm o dan y ddeddfwriaeth.

3.3 Bod y Swyddog Monitro yn cael ei gyfarwyddo i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion i adlewyrchu'r pwerau newydd a diwygiedig hyn mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3.4 Bod y Swyddog Monitro hefyd yn cael ei gyfarwyddo i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion i adlewyrchu bod y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cymryd y cyfrifoldebau o dan ailstrwythuro diweddar mewn perthynas â swyddogaethau tai'r Cyngor, ac i dacluso'r ddeddfwriaeth a restrir sydd yn y Cynllun oherwydd diddymiadau a diwygiadau i ddeddfwriaeth sydd o fewn maes gwasanaeth gwarchod y cyhoedd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn derm eang a ddefnyddir i ddisgrifio achosion o ddydd i ddydd o drosedd, niwsans ac anhrefn sy'n gallu gwneud bywydau pobl yn boen - o sbwriel a fandaliaeth i feddwdod cyhoeddus neu gŵn ymosodol. Mae amrywiaeth mor eang o ymddygiadau yn golygu bod y cyfrifoldeb am ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei rannu rhwng nifer o asiantaethau, yn arbennig yr heddlu, cynghorau a landlordiaid cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Ganolog a'r Swyddfa Gartref wedi dylunio'r diwygiadau hyn i roi dioddefwyr wrth wraidd yr ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar weithwyr proffesiynol i ddelio ag unrhyw sefyllfa benodol.

Mae'r darpariaethau newydd yn symleiddio offer ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda chwe phŵer newydd yn lle'r 19 presennol. Mae dau bŵer newydd sef Sbardun Cymunedol a'r Camau Unioni Cymunedol.

Gellir crynhoi'r newidiadau allweddol fel a ganlyn:

- Disodli Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs) gydag ystod o orchmynion llys eraill sydd wedi'u targedu at unigolion gwrthgymdeithasol, gyda dau offeryn newydd: (1) Gwaharddebau (2) Gorchmynion Ymddygiad Troseddol. Gall y gorchmynion newydd fod â gofynion positif ynghlwm wrthynt i gefnogi troseddwyr a mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd eu hymddygiad troseddol.
- Mae'r offer sydd ar gael wedi'u cyfuno er mwyn symleiddio'r ystod o gamau unioni sydd ar gael i fynd i'r afael ag ystod eang o ymddygiadau sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y trigolion sy'n byw mewn ardal arbennig. Mae'r rhain bellach yn cynnwys Rhybuddion Gwarchod y Cyhoedd, Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, Pwerau Cau a hefyd Pwerau Gwasgaru'r Heddlu.
- Cyflwyno Seiliau Absoliwt ar gyfer Meddiant mewn tenantiaethau sicr (y sector rhentu preifat) a thenantiaethau diogel (tai cymdeithasol) lle mae troseddu eisoes wedi'i brofi gan lys arall.
- Cyflwyno Camau Unioni Cymunedol newydd sy'n defnyddio ymagwedd cyfiawnder adferol i ddelio â throseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi dogfen 'Camau Unioni Cymunedol' yn dilyn ymgynghoriad cymunedol.
- Cyflwyno Adolygiad Achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Sbardun Cymunedol). Bydd hyn wedyn yn gosod dyletswydd ar bartneriaid statudol

gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol lle mae dioddefwyr neu gymunedau wedi cwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol ar sawl achlysur a’u bod yn credu bod asiantaethau lleol wedi methu ag ymateb yn effeithiol. Adolygiad Achos Sbardun Cymunedol – Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â cheisiadau adolygu achosion. Yna bydd y ceisiadau hyn yn cael eu clywed gan Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i benderfynu a yw'r ymateb wedi bod yn ddigonol. Mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda'n swyddogion gwasanaethau cwsmeriaid i weithredu fel ein un pwynt cyswllt ar gyfer derbyn ceisiadau ar gyfer adolygiadau sbardun cymunedol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at gadw strydoedd yn lân ac yn daclus, gan ymdrin â gweithgareddau gwrthgymdeithasol a allai effeithio ar les trigolion ac ymwelwyr, a byw a gweithio mewn amgylchedd diogel, a lle mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu rhag niwed.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i wasanaethau mewn perthynas â mabwysiadu’r Ddeddf a diwygio'r cynllun dirprwyo. Fodd bynnag, bydd angen monitro gweithgareddau neu Orchmynion a wnaed neu a wneir o dan y ddeddfwriaeth, a bydd angen i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill mewn perthynas â gorfodi rhai o'r darpariaethau, megis cyflwyno rhybuddion.

Mae yna hefyd botensial i effeithio ar lwyth gwaith tîm cyfreithiol y Cyngor os torrir Rhybuddion Gwarchod y Gymuned, ac apeliadau a cheisiadau am Waharddebau Llys.

Mae darpariaeth lle torrir Rhybudd Gwarchodd y Gymuned i’r Cyngor gymryd camau unioni i ddelio â'r mater dan sylw. Gallai hyn gynnwys clirio sbwriel neu lanhau graffiti. Er y gellir codi taliadau rhesymol am y gwaith, y cyfarpar a gweinyddu ar y troseddwyr, mae perygl o apêl a hefyd y risg o beidio â gallu adennill y costau llawn, os o gwbl mewn rhai sefyllfaoedd, a dyna pam bod angen dull cymesurol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau wedi’u datblygu gan lywodraeth y DU i liniaru risgiau a chanlyniadau unrhyw effeithiau andwyol, pe baent yn digwydd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau penodol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae hyfforddiant wedi'i wneud gan swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ar fanylion y Ddeddf, ac ymgynghorwyd â'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r Ddeddf a'r newidiadau i'r broses ddirprwyo. Dylai gweinyddiaeth y prosesau a nodir gael eu hadolygu maes o law i sicrhau y gellir rheoli'r newidiadau o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Rheoli disgwyliadau'r gymuned, gan fod y Cyngor a'i bartneriaid angen rheoli disgwyliadau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnyddio'r pwerau hyn mewn hinsawdd ariannol heriol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014; a. 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Chyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn 3.26